

Rhifyn 51 Hydref 2018

# Chwarae

Newyddion chwarae a gwybodaeth  
gan yr elusen genedlaethol  
dros chwarae

# dros Gymru



# Cynnwys

- |    |  |    |  |
|----|--|----|--|
| 2  | Golygyddol   | 13 | Ffocws ar Erthygl 31                     |
| 3  | Newyddion  | 14 | Ymateb i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn |
| 6  | Hyrwyddo'r hawl i chwarae yng Nghymru                  | 16 | 'Gwnewch hi'n haws imi chwarae'          |
| 8  | Datganiad ar chwarae plant                             | 18 | Hawl i chwarae mewn mannau cyhoeddus     |
| 10 | Adolygiad <i>Hwyl yn y dwnjwn</i>                      | 19 | Grym, Hawliau a Chwarae                  |
| 11 | Plentyndod Chwareus                                    | 20 | Datblygu'r gweithlu                      |
| 12 | Comisiynwyr Plant y DU yn cefnogi hawl plant i chwarae | 22 | Cymunedau chwareus                       |

## Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

## Golygyddol

**Sylw Cyffredinol 17 – bum mlynedd yn ddiweddarach. Pa wahaniaeth mae hwn wedi ei wneud yng Nghymru?**

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sicrhau hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau ond roedd wedi ei ystyried ers amser fel 'erthygl angof' y Confensiwn.

Ar 1 Chwefror 2013, mabwysiadodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol 17 (SC) er cefnogaeth i Erthygl 31. Mae'r datganiad hwn yn pwysleisio pwysigrwydd ac yn egluro ystyr Erthygl 31 ac mae'n egluro'r hyn ddylai llywodraethau ei wneud.

Mae'n rhoi'r hawl i chwarae dan y chwyddwydr ac mae'n helpu llunwyr polisïau, cymunedau, rhieni, plant a phlant yn eu harddegau i ddadlau achos buddiannau a gwerth chwarae.

Mae Pwyllgor y CU yn annog llywodraethau'n gryf i ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau hawliau Erthygl 31 ar gyfer pob plentyn ac y dylai pob plentyn dderbyn digon o amser a lle i arfer yr hawliau hyn. Dylai llywodraethau hefyd ystyried cydweithredu

trawsadrannol yn lleol ac yn genedlaethol.

At ddibenion CCUHP a pholisi llywodraethau, mae'r SC yn darparu disgrifiad cwbl angenrheidiol o chwarae. Mae'n nodi: mai nodweddion allweddol chwarae yw hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol; mae'n elfen sylfaenol ac anhepgor o bleser plentyndod; mae'n rhan hanfodol o ddatblygiad corfforol, cymdeithasol, deallusol, emosiynol ac ysbrydol. Mae hefyd yn disgrifio'r gwahaniaeth rhwng chwarae, hamdden ac adloniant.

Mae disgrifiad y SC o chwarae'n cyd-fynd â *Pholisi Chwarae* Llywodraeth Cymru (2002) ac yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros chwarae plant yn ei Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Ar y pryd, roedd y penderfyniad hwn i ddatblygu deddfwriaeth a chanllawiau statudol cysylltiedig, wedi eu seilio ar yr hawl i chwarae, yn cael ei ystyried yn idealistig gan rai. Fodd bynnag, mae'r SC wedi ategu'r agwedd hon ac, wyth mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn dechrau gweld effaith cadarnhaol y deddfwriaeth.

Mae'r deddfwriaeth yn mynnu bod rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad trylwyr bob tair blynedd, gan weithio ar draws gwahanol agendâu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r

broses o gynhyrchu asesiadau a 'sicrhau cyfleoedd chwarae digonol' yn galw am gyfranogiad pawb y mae eu swyddi'n effeithio ar chwarae plant, fel cynllunio, trafndiaeth ac addysg.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol i'r ffaith bod chwarae plant yn mynd y tu hwnt i ddarparu meysydd chwarae a chynlluniau chwarae. Mae'n ymwneud mwy â phwysigrwydd gweld plant yn cael amser, lle a chefnogaeth oedolion i'w helpu i chwarae yn eu cymdogaethau. Mae'r newid esblygol yma mewn calonnau a meddyliau, i wneud hawl pob plentyn i chwarae'n realiti, wedi ei helpu a'i hysbysu yn ddiagram gan y SC.

Felly, bum mlynedd yn ddiweddarach, pa wahaniaeth yn union mae'r SC wedi ei wneud yng Nghymru? Yn bwysicaf oll, mae wedi ategu'r agwedd sy'n cael ei chymryd gan Lywodraeth Cymru, y *Polisi Chwarae a'r deddfwriaeth sy'n ymgorffori egwyddor digonolrwydd cyfleoedd chwarae*. Mae llawer iawn ar ôl i'w wneud ond mae llawer wedi ei wneud eisoes i greu'r amodau cywir. Yr her i ni nawr yw cynnal y momentwm yma i wneud y rhyddid i chwarae'n realiti ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.

**Mike Greenaway,**  
**Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru**



# Newyddion

## Llwyddiant i Chwarae Cymru

Mae Chwarae Cymru'n falch o fod wedi derbyn Nod Ansawdd Lefel 1 System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO). Mae hyn yn dilyn proses ddwys a thrylwyr gan y tîm staff a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i hunan-arfarnu, gwella ac yna pasio asesiad allanol.



Mae PQASSO yn gynllun sicrhau ansawdd ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Er mwyn helpu mudiadau i gael eu rhedeg yn fwy effeithiol ac effeithlon, mae'n mesur perfformiad mewn ystod eang

o feysydd ansawdd yn cynnwys llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth, a chanlyniadau.

**Trwy ennill Nod Ansawdd Lefel 1 PQASSO, rydym wedi llwyddo i arddangos rhinweddau megis:**

- Llywodraethu effeithiol a chyfrifol
- Rheolaeth ariannol gref
- Creu perthnasau da gyda sefydliadau eraill
- Adnabod a gwerthfawrogi ein cymuned – rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau gwell i gynrychioli eu buddiannau yn y modd gorau posib.

### Dywedodd yr asesydd PQASSO:

*'Mae Chwarae Cymru wedi arddangos lefel drawiadol o gyflawniad ar draws pob un o feysydd ansawdd PQASSO. Dangosodd y cyfarwyddwr a'r staff ymrwymiad llwyr i gennad, gwerthoedd a nodau'r mudiad a gwelwyd eu bod yn dîm abl, profiadol iawn a llawn ysgogiad.'*

*Mae'r llywodraethu'n rhagorol – dyma un o wir gryfderau'r mudiad ym mhob agwedd. Fe wnaeth Chwarae Cymru hefyd daro'r nod uchaf am ddarparu croeso cynnes, cyfeillgar gan sicrhau bod yr ymweliad safle hwn yn un o'r rhai mwyaf cofiadwy i'r Asesydd, a hynny am yr holl resymau cywir. Dymunaf bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.'*

### Dywedodd Mike Shooter, Cadeirydd Chwarae Cymru:

*'Rydych yn gwybod yn reddfodol pan ydych yn gweithio i sefydliad sy'n fedrus, ymroddedig a thosturiol, ond mae'n dda cael tystiolaeth o hynny. A dyma fe.'*

## Safbwyntiau rhieni yng Nghymru

Yn 2017-18, fe wnaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru gynnwys cwestiynau ar fodlonrwydd rhieni gyda manau i blant a phobl ifanc chwarae neu gwrdd, yn ogystal â bodlonrwydd gyda chlybiau a gweithgareddau a drefnir.

### Mae canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Roedd 52 y cant o rieni plant 1 i 10 oed yn fodlon gyda chlybiau a gweithgareddau a drefnir.
- Roedd 34 y cant o rieni plant 11 i 15 oed yn fodlon gyda manau yn yr ardal leol i'w plentyn gwrdd a chyfarfod â ffrindiau, ac roedd 38 y cant yn fodlon gyda chlybiau a gweithgareddau a drefnir ar gyfer plant 11 i 15 mlwydd oed.
- Ar gyfer y ddwy ystod oedran, roedd rhieni mewn ardaloedd trefol yn fwy bodlon gyda darpariaeth chwarae a hamdden na rhieni mewn ardaloedd gwledig.

- Fe wnaeth pryderon rhieni ynghylch diogelwch yr ardal leol fel rheswm am anfodlonrwydd gydag ardaloedd chwarae gynyddu rhwng 2014-15 a 2017-18.

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys dros 11,000 o bobl ac fe'i cynhelir trwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru.

### Dysgwch fwy ar:

<https://gov.wales/docs/statistics/2018/181016-national-survey-wales-2017-18-play-en.pdf>

# Cyngor Caerdydd yn agor strydoedd ar gyfer chwarae



Caerdydd yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i weithio tuag at gydnabyddiaeth fyd-eang fel rhan o raglen *Child Friendly City*, Unicef.

Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn dwyn partneriaid ynghyd i ddatblygu prosiect peilot Chwarae Stryd. Mae'r prosiect yn anelu i symleiddio'r broses ymgeisio i gau ffyrdd er mwyn caniatáu i drigolion mewn pum cymuned i gau eu strydoedd am gyfnodau byr i alluogi plant i chwarae'n ddiogel yn agos i'w cartrefi.

Mae'r Cyngor a Chwarae Cymru yn gweithio gyda thrigolion i wneud strydoedd a chymunedau'n fannau mwy chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau. Gan ddefnyddio'r model *Playing Out* – sesiynau chwarae stryd gaiff eu harwain gan gymdogaion ar gyfer cymdogaion – bydd trigolion ar draws y ddinas yn cau eu strydoedd i draffig am ddwyawr y mis ar gyfer cynnal sesiynau chwarae stryd.

## Meddai Lee Patterson, arweinydd strategol y Cyngor ar gyfer menter *Child Friendly City*:

*'Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi tynnu sylw ... at yr angen am fwy o gyfleoedd i chwarae yn eu cymunedau ac i deuluoedd dreulio mwy o amser gyda'i gilydd. Mae'r plant hefyd wedi pwysleisio'r angen i leihau'r defnydd o geir yn y ddinas er mwyn gwella'r amgylchedd a gwneud Caerdydd yn ddinas fwy diogel i symud o'i chwmpas wrth gerdded, seiclo neu sgwtio.'*

Fel rhan o'r prosiect, mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda *Playing Out* i gyfieithu rhai o'u hadnoddau i drigolion i'r Gymraeg ([www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)). Mae'r prosiect hefyd wedi

hysbysu datblygiad pecyn cymorth ar gyfer cynghorau sy'n cynnig arweiniad ac arfau i gefnogi datblygiad polisiâu a gweithdrefnau i alluogi prosiectau chwarae dan arweiniad trigolion yn eu hardaloedd.

## Meddai Toni Morgan, un o drigolion Caerdydd a mam i ddau o blant:

*'Roeddwn eisiau rhoi cychwyn i'r prosiect ar fy stryd oherwydd fy mod yn gwybod am yr holl deuluoedd sy'n byw yma, ond doeddwn i erioed wedi dod ar draws plant yn chwarae'r tu allan, ar unrhyw adeg, yn ystod y tair blynedd imi fyw yma. Roeddwn am i fy mhlant gael profiad mwy "organig" o chwarae, wedi ei arwain gan y plant, wrth iddynt dyfu a'r holl fuddiannau ddaw gyda hynny ... dyma'r opsiwn agosaf, mwyaf diogel, heb iddo fod yn rhy artiffisial a chael ei ddifetha gan oedolion! A heblaw am hynny, mae'r term "play date" yn codi ias arna' i!'*

## Dywedodd Marianne Mannello, Cyfarwyddwraig Gynorthwyol Chwarae Cymru:

*'Mae rhoi caniatâd i blant chwarae allan yn agos i'w cartref a chartrefi eu ffrindiau'n eu helpu i ennill dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo, wrth iddynt ddysgu i ddelio gyda sefyllfaoedd y tu allan i'r cartref, heb fod yn rhy bell oddi wrth oedolion. Mae hwn yn gam pwysig tuag at ennill hunandibyniaeth a mwy o annibyniaeth ar gyfer mynd i'r parc, y siop leol neu gerdded i'r ysgol.'*

## Cyngor cyfreithiol i blant a phlant yn eu harddegau

Mae Erthygl 17 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn pwysleisio bod hawl gan blant i dderbyn gwybodaeth sy'n ddibynadwy ac yn rhwydd i'w ddeall o amrywiol ffynonellau.

Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant yn darparu gwybodaeth a mynediad i gyngor cyfreithiol ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau.

### Mae'n anelu i:

- Ddarparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth gyfreithiol i blant a phlant yn eu harddegau
- Darparu hyfforddiant ac addysg ar y gyfraith a sut y mae'n effeithio ar blant a phlant yn eu harddegau

- Cynnal gwaith ymchwil, dadansoddi data ac astudiaethau gwerthusol er mwyn newid a gwella'r gyfraith, polisiâu ac arfer mewn perthynas â phlant a phlant yn eu harddegau.

Mae'r Ganolfan wedi datblygu gwefan sy'n cynnwys adran i helpu plant ddod i wybod am eu hawliau a sut y mae'r gyfraith yn effeithio arny'n nhw. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am chwarae: <https://childrenslegalcentre.wales/cy/sut-maer-gyfraith-yn-effeithio-arnaf/chwarae/>



# Cerdyn adroddiad Plant Egniol Iach Cymru 2018

Mae cerdyn adroddiad Plant Egniol Iach Cymru 2018 (PEI-Cymru) yn dwyn ynghyd waith ymchwil sy'n berthnasol i weithgarwch corfforol ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n anelu i gynyddu ymwybyddiaeth am gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgarwch corfforol ac mae'n eiriol dros hawl plant i fod yn egniol ac iach.

Cynhyrchwyd y cerdyn adroddiad gan grŵp arbenigol wedi ei greu o 24 o academyddion, ymchwilwyr ôl-raddedig, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr. Mae'n cynnwys un ar ddeg o ddangosyddion sy'n crynhoi cynnydd y wlad a'n sefyllfa ar weithgarwch corfforol sy'n berthnasol i iechyd plant.

Cyfrannodd Chwarae Cymru at y dangosydd Chwarae Egniol. Defnyddiodd Grŵp Arbenigol PEI-Cymru ddata o Arolygon Plant Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 ac arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC) 2017/18 i roi gradd C- i'r dangosydd Chwarae Egniol.

Er gwaethaf bodolaeth 21 polisi cenedlaethol sy'n anelu i hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymysg plant a phobl ifanc Cymru, mae'r gyfran o blant sy'n cyflawni'r canllawiau ar gyfer gweithgarwch corfforol yn dal i fod yn isel ac mae ymddygiadau eisteddog yn dal i fod yn uchel.

**Mae'r cerdyn adroddiad yn cynnig yr argymhellion canlynol er mwyn gwella'r radd yn y dyfodol:**

- **Ffyrdd mwy diogel:** caiff mabwysiadu cyfyngiad cyflymder o 20mya ym mhob ardal breswyl effaith cadarnhaol a phellgyrhaeddol. Dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â chymunedau lleol a hwyluso prosiectau chwarae stryd dan arweiniad trigolion ar draws Cymru.
- **Gwneud y mwyaf o asedau cymunedol – tiroedd ysgol ar gyfer chwarae:** dylid annog ysgolion, fel adnodd canolog ar gyfer y gymuned leol, i ystyried yr opsiynau i sicrhau bod tiroedd ysgol ar gael ar gyfer chwarae rhydd ar ôl ysgol ac ar y penwythnosau.
- **Amser chwarae yn yr ysgol:** dylai ysgolion ystyried y gwerth i les disgyblion wrth wneud penderfyniadau ar gynllunio a hyd y diwrnod ysgol yn cynnwys amser chwarae, amser cinio ac amserlennu gwaith cartref. Dylai ysgolion ddarparu cyfleusterau, offer a goruchwyliaeth ddigonol yn ystod amser cinio. Dylai dylunio tiroedd ysgol a dylunio meysydd chwarae sy'n cefnogi chwarae, fod yn elfen annatod o ddylunio ysgolion newydd o'r cychwyn cyntaf.

## Cyfranogiad plant wrth lunio penderfyniadau

Ystyriodd cynhadledd *Eurochild* a gynhaliwyd yng Nghroatia ym mis Hydref 2018 enghreifftiau positif o sut y mae llunwyr penderfyniadau cyhoeddus, ar lefel leol, genedlaethol ac Ewropeaidd, yn parchu hawl plant i gyfranogi mewn penderfyniadau fydd yn effeithio arnyh.



**Eurochild**  
Putting children at  
the heart of Europe

Mae papur cefndir – *Children's participation in public decision-making – a review of practice in Europe* – a baratowyd ar gyfer y gynhadledd yn rhoi trosolwg inni o arfer cyfredol ar gyfranogaeth plant mewn llunio penderfyniadau cyhoeddus. Gan ddefnyddio canlyniadau arolwg o aelodau *Eurochild* ac adolygiad o lenyddiaeth academaidd sy'n canolbwyntio ar Ewrop, mae'n cyflwyno enghreifftiau o weithgareddau cyfranogaeth plant sy'n cynnwys plant o gefndiroedd difreintiedig, sydd wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar lunio penderfyniadau cyhoeddus.

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod gan blant hawl i fynegi eu safbwyntiau ar bob mater sy'n effeithio arnynt.

Fodd bynnag, mae Sylw Cyffredinol Rhif 12 Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn egluro bod oblygiadau o dan Erthygl 12 yn mynd y tu hwnt i greu cyfleoedd i blant leisio eu barn. Mae gan lywodraethau gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif gan y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau.

Mae astudiaeth achos '*Wales: Developing the Right to Safe Places to Play*', gafodd ei chynnwys yn y papur cefndir, yn tynnu sylw at yr effaith gafodd safbwyntiau plant wrth ddylanwadu ar bwyllgor ac ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Darllenwch y papur cefndir ar:**  
<http://bit.ly/EurochildBackgroundPaper>

# Hyrwyddo'r hawl i chwarae yng Nghymru



Ar hyd a lled Cymru, mae cynnydd yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i ymateb i ddyletswyddau Cyfleoedd Chwarae Digonol Llywodraeth Cymru.

Mae Chwarae Cymru wedi casglu astudiaethau achos sy'n cyflwyno datrysiadau dyfeisgar i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, yn unol â'r Materion a ddynodir yng Nghyfarwyddyd Statudol Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.

## Mae'r astudiaethau achos:

- yn adeiladu ar arferion, partneriaethau neu arddulliau sy'n bodoli eisoes
- yn seiliedig ar Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Sylw Cyffredinol 17 ar Erthygl 31
- yn gweithio'n unol ag egwyddorion cydweithredu a gweithio partneriaeth
- yn mwyaflu adnoddau
- wedi eu datblygu a'u gweithredu trwy ymgynghoriad, cyfranogiad ac ymgysylltiad.

## Meddwl am arwyddion

Fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Conwy, treuliodd gweithwyr datblygu chwarae amser yn siarad gyda phlant a phobl ifanc am eu cyfleoedd i chwarae a'r rhwystrau i chwarae y maent wedi eu profi. Yn ystod y sgrysiâu hyn, ac mewn ymgynghoriadau gyda Chyngor Ieuenctid Conwy, tynnwyd sylw at broblem y neges negyddol gaiff ei chyfleu gan arwyddion Dim Gemau Pêl.

Er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiad bod arwyddion Dim Gemau Pêl yn cyfleu'r neges nad oes croeso i blant chwarae yn eu cymuned, gweithiodd Tîm Datblygu Chwarae Conwy gyda'r awdurdod lleol a chymdeithasau tai i greu cynllun i dynnu'r arwyddion i lawr.

Gweithiodd y Tîm Datblygu Chwarae gyda chlwb ffilm ieuenctid lleol i greu fideo yn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae â thynnu'r arwyddion Dim Gemau Pêl i lawr. Rhannwyd y fideo hwn trwy'r cyfryngau cymdeithasol a bellach mae proses yn ei lle i blant ac oedolion herio arwyddion yn eu hardal, a hynny ar draws y sir.

I wyluo'r fideo, ymwelwch â: <http://cvsc.org.uk/cy/cvscplaydevelopment/no-ball-games-signs>

Gall arwyddion, fel rhai Dim Gemau Pêl, atal plant a rheini rhag defnyddio man penodol. Er bod gorfodi'r arwyddion yn gyfreithiol yn broses anodd, maent yn stopio plant rhag chwarae, maent yn atal rheini rhag caniatáu i'w plant chwarae'r tu allan, ac maent yn rhoi grym i bobl eraill sydd ddim yn credu y dylai plant fod yn chwarae yn eu cymuned. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arwyddion positif sy'n annog chwarae. Yng Ngwauntyerfyn, Wrecsam, derbyniodd y cyngor cymuned gwynion am blant yn mynd ar eu beiciau a'u sgwteri ar faes parcio'r ganolfan gymunedol. Roedd pobl yn pryderu nad oedd hynny'n ddiogel, y gallai'r plant gael eu hanafu neu y gallai ceir gael eu crafu.

*'Fe wnaethom ystyried gosod arwyddion i atal plant rhag chwarae yno ond mewn cyfarfod o'r cyngor cymuned nodwyd, gan fod y maes parcio'n fflat, yn gymharol fawr ac ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio ar adegau penodol, ei fod yn le reit dda i blant chwarae. Mewn gwirionedd, mae'n debyg ei fod yn fwy diogel na'u gweld yn seiclo ar y palmentydd neu'r ffyrdd, yn enwedig ar gyfer plant iau sydd gyda'u rhieni'n aml beth bynnag.*

*Fe benderfynom y gallai'r gofod gael mwy nac un defnydd a, chyn belled â bod pobl yn ofalus, y gellid ei rannu. Er mwyn cefnogi hyn, fe osodom arwyddion yn hysbysu gyrwyr i ddisgwyl gweld plant yn chwarae ar y maes parcio. Bellach, mae gyrwyr yn tueddu i barcio ym mhen uchaf y maes parcio, gan adael y rhan isaf yn rhydd. Mae'n braf gweld plant yn chwarae'r tu allan i'r ganolfan gymunedol.'*

**Cynghorydd Cymuned**

## Meddwl am ofod agored

Yn 2016, yn dilyn ymgynghoriad, cynhyrchodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Strategaeth Mannau Agored, sy'n anelu i ddynodi ardaloedd sydd angen buddsoddiad pellach o ran amser, adnoddau a rheolaeth er mwyn gwella niferoedd mathau penodol o ofod agored, a mynediad iddynt.

Y weledigaeth ar gyfer yr awdurdod lleol yw sicrhau bod chwarae'n cael ei gydnabod mewn strategaethau a pholisïau allweddol o fewn yr awdurdod. Mae awydd strategol i gynyddu cydlyniant a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill er mwyn gwella cyfleoedd chwarae plant ar draws y sir.

Un o'r ardaloedd blaenoriaeth a ddynodwyd yn ystod ymgynghoriad 2016 oedd Parc Sandy, yn Ward Penydarren. Roedd aelodau'r ward leol, swyddogion yr awdurdod lleol, a mudiadau cymunedol a'r drydedd sector i gyd yn awyddus i weithio gyda'i gilydd i wella'r ardal, gan sicrhau cydymffurfiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Canfu'r ymgynghoriad bod angen i'r gofod fod yn groesawus, bod â mynediad da iddo, arwyddion clir, gwell offer a mynd i'r afael â phroblem baw cŵn. Ehangwyd yr ardal chwarae i gynnwys ffurfiau eraill o chwarae mwy naturiol, fel plannu twneli helyg. Cytunwyd i greu amgylchedd mwy chwareus trwy gyflwyno strwythur tirwedd mwy amrywiol.

## Cyfranogaeth rhieni

Pan ddaeth ariannu ar gyfer sesiynau chwarae i ben ar ystâd dai yn Sir Benfro, roedd nifer o rieni lleol â diddordeb derbyn hyfforddiant a ffurfio tîm chwarae rhieni i gynnig cyfleoedd chwarae wedi eu staffio ar gyfer plant lleol. Astudiodd y rhieni ar gyfer cymhwyster gwaith chwarae a rhoddwyd cyfle iddynt roi'r theori yr oeddent newydd ei ddysgu ar waith mewn cyfres o sesiynau chwarae a gefnogwyd gan Dîm Chwarae Sir Benfro. Gyda'i gilydd, dan enw Tîm Chwarae a Chyfranogaeth Ystâd Mount (MEPPT), mae'r rhieni bellach yn darparu sesiynau chwarae wythnosol yn rhad ac am ddim ar gyfer teuluoedd mewn canolfan gymunedol leol.

Datblygodd y Swyddog Digonolrwydd Chwarae a Swyddog Tai'r awdurdod lleol bartneriaeth i gynnig hyfforddiant chwarae i rieni. Mae gorchestion y tîm wedi eu cydnabod yn genedlaethol yng Ngwobrau TPAS Cymru 2018, ble yr enillodd drydedd wobwr yn yr adran Gweithredu Cymunedol.

## Mynd i'r afael â newyn yn ystod y gwyliau

Mae bwyd a chwarae yn allweddol bwysig i iechyd, twf a lles plant. Mae gan blant iach sy'n cael digon o fwyd a maeth yr adnoddau i ymateb yn frwdfrydig ac yn llawn diddordeb i gyfleoedd chwarae a phrofiadau newydd a chyfoethog. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Gwasanaeth Rheoli Travis Perkins, dosbarthodd Gyngor Sir y Fflint brydau poeth i blant oedd yn mynychu cynlluniau chwarae wedi eu lleoli yn y gymuned dros gyfnod gwyliau haf yr ysgol.

Gwelir ymrwymadau tebyg gan dimau chwarae a'u partneriaid ledled Cymru i sicrhau bod bwyd ar gael i blant sy'n mynychu cynlluniau chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r mwyafrif o gynlluniau chwarae'n rhad ac am ddim yn y man cyrraedd, yn cael eu cynnal yn agos i gartrefi'r plant ac yn apelio at deuluoedd gan nad oes system atgyfeirio ffurfiol.

Gwyddom fod pob agwedd o fywyd plant yn cael eu dylanwadu gan eu hysfa i chwarae, a bod y math o chwarae hunangyfeiriedig, hunanddewisiedig a gynigir gan ddarpariaeth chwarae o safon dros y gwyliau yn cynyddu cyfleoedd plant i atgyfnerthu eu gwytnwch eu hunain. Mae chwarae'n ganolog i fywyd plentyn iach, ac rydym yn hyderus bod darparu bwyd mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau'n un o'r ffyrdd gorau i gefnogi plant a'u teuluoedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol.

# Cyd-ddatganiad ar chwarae plant

Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyd-ddatganiad ar gyfer chwarae awyr agored plant. Mae'r cyd-ddatganiad yn eiriol dros chwarae awyr agored mewn cymdeithas sy'n tyfu'n gynyddol ofnus o risg, gan arwain at weld plant yn cael llai o gyfleoedd i chwarae'r tu allan. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd plant a phobl ifanc yn y tymor byr a thrwy gydol eu hoes.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Mae'r datganiad wedi ei hysbysu gan bapur cefndir sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd chwarae, y rhwystrau a wynebier gan blant wrth gael mynediad i chwarae a'r datrysiadau posibl.

Mae'r papur yn cymryd ei ddiffiniad o chwarae o Sylw Cyffredinol 17 (Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, 2013) sy'n nodi:

- bod chwarae yn cael ei gychwyn, a'i reoli a'i strwythuro gan blant
- bod chwarae yn weithgaredd an-orfodol, a yrrir gan gymhelliad cynhenid, ac nad yw'n fodd o wneud rhywbeth arall
- bod chwarae yn cynnwys nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a pheidio bod yn gynhyrchiol.

## Cefndir

Yn ystod haf 2017, gweithiodd Chwarae Cymru mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu rhaglen *Pob Plentyn Cymru*. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth a chyngor i gefnogi rhieni i roi cychwyn iach a hapus mewn bywyd i blant. Dynododd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddeg cam, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i helpu plant yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru i gynnal pwysau iach, y mae'n eu hyrwyddo trwy *Pob Plentyn Cymru*. Mae cam chwech yn canolbwyntio ar chwarae yn yr awyr agored, gyda'r uchelgais y bydd pob plentyn yn cael cyfle i chwarae'r tu allan bob dydd.

Mae plant sy'n chwarae'r tu allan yn fwy bywiog ac yn fwy tebygol o gyflawni'r tair awr o symud y dydd a argymhellir gan Brif Swyddogion Meddygol y DU. Dilynydd lansiad y rhaglen gyda symposiwm ar y cyd oedd yn canolbwyntio ar chwarae, iechyd a risg. Yma, trafodwyd yr angen i ddatblygu cyd-ddatganiad, ac aethpwyd ati i greu un. Cytunwyd bod angen inni daro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau ar draws gwahanol ddeilliannau iechyd a lles ac i ddeall mwy am y rhwystrau a'r hwyluswyr sy'n dylanwadu ar fynediad plant i gyfleoedd chwarae.

## Mae'r papur cefndir yn:

- cyflwyno persbectif iechyd cyhoeddus ar chwarae
- nodi manylion dystiolaeth ar fuddiannau iechyd chwarae awyr agored
- dynodi nifer o rwystrau
- trafod datrysiadau posibl
- cyflwyno persbectifau rhyngwladol
- archwilio'r amrediad o bolisiau a deddfwriaethau cefnogol
- egluro chwarae ar wahanol oedrannau a chyfnodau o blentyndod.

Mae'r cyd-ddatganiad yn archwilio sut y gallwn greu'r amodau i gefnogi chwarae awyr agored, mae'n dynodi rhwystrau i chwarae'r tu allan ac yn argymhell y camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'n datgan yn gwbl glir yr hyn hoffai Chwarae Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ei weld yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau. Mae'r datganiad wedi



ei drefnu yn ôl grwpiau er mwyn caniatáu i ddarllenwyr weld yn gyflym sut gallan nhw wneud gwahaniaeth. Mae'n tynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i:

## Rheolwyr lleoliadau chwarae a gofal plant a pharciau a mannau agored

Mae dryswch a phryderon ynghylch rheoliadau iechyd a diogelwch yn atal llawer o blant rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae awyr agored egniol ac mae rhaid mynd i'r afael â hyn.

## Awdurdodau lleol

Yn aml, bydd rhieni a phlant yn dweud bod traffig yn ffactor sy'n cyfyngu ar chwarae mewn cymdogaethau. Mae trwch traffig wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mae hynny'n debyg o barhau. Mae rhai ardaloedd wedi mynd i'r afael â hyn trwy adennill strydoedd ar gyfer chwarae trwy brosiectau chwarae stryd gaiff eu harwain gan drigolion, ble caiff strydoedd eu cau am gyfnodau byr i ganiatáu i blant chwarae.

## Ysgolion

Mae cael digon o amser i chwarae'n broblem gyffredin ar gyfer plant: mae gwaith cartref, arholiadau ac adolygu'n cyfyngu ar amser rhydd ar gyfer chwarae. Mae'r plant yn adrodd mai yn yr ysgol maent yn cael eu prif gyfle i chwarae gyda'u ffrindiau ond bod amserau chwarae ac amser cinio yn cael eu cwtogi.

## Rhieni a gofalwyr

Mae pryder nad yw chwarae'r tu allan yn cael ei ystyried fel rhywbeth diogel a bod yr ofn risg yma'n niweidiol i iechyd tymor hir plant a phobl ifanc Cymru dros eu hoes. Mae rhieni'n adrodd am amrywiol rwystrau sy'n atal plant rhag chwarae'r tu allan, yn cynnwys traffig, anawsterau cael mynediad i fannau i chwarae, pwysau amser ac ofnau ynghylch diogelwch.

## Gwasanaethau arolygu

Mae dryswch a phryderon ynghylch rheoliadau iechyd a diogelwch yn atal llawer o blant rhag cymryd rhan mewn chwarae awyr agored egniol, mae rhaid mynd i'r afael â hyn. Ni ddylai'r galwadau ar ysgolion i gyflawni targedau academiaidd gael eu gosod uchlaw'r ddyletswydd i amddiffyn iechyd a lles y plant yn eu gofal. Mae amser a bennir ar gyfer chwarae'n gysylltiedig â lles disgyblion ac, felly, dylid ei ystyried yn elfen bositif o fywyd ysgol.

## Cymdeithas yn gyffredinol

Mae gan lawer o oedolion atgofion cadarnhaol o chwarae'r tu allan ac maent yn cydnabod gwerth chwarae ond mae ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel yn creu her ar gyfer cymdeithas fodern ac mae'n erydu cyfleoedd ar gyfer chwarae. Mae rhaid i gymdeithas sylweddoli a gweithredu ar hyn er mwyn unioni'r fantol.

### Dyweddodd y Dr. Julie Bishop, Cyfarwyddwraig Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru:

'Mae'r cyd-ddatganiad hwn yn eiriol dros chwarae awyr agored mewn cymdeithas sy'n tyfu'n gynyddol ofnus o risg, gan arwain at lai o chwarae'r tu allan. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd plant a phobl ifanc yn y tymor byr a thrwy gydol eu hoes. Mae chwarae'n hawl sylfaenol ar gyfer pob plentyn, ac mae'n werth chweil oherwydd y pleser y mae'n ei gynnig i blant a'u teuluoedd yn yr ennyd. Fodd bynnag, mae chwarae hefyd yn cynnig budd effaith cadarnhaol ar nifer fawr o ddeilliannau iechyd pwysig, yn cynnwys mwy o weithgarwch corfforol; lleihau gordewdra mewn plentynod, gwella llesiant plant a phobl ifanc a helpu i ddatblygu gwytnwch.'

### Meddai Chwarae Cymru:

'Mae'r cyd-ddatganiad yn dadlau'r achos dros greu amodau sy'n caniatáu i blant gyfarwyddo a phenderfynu ar eu chwarae eu hunain. Pan fydd plant yn cyfarwyddo eu chwarae'n bersonol, byddant yn penderfynu ar y rheolau a'r rolau y byddant yn eu cymryd fel rhan o'u chwarae ac yn creu bydoedd y gallant eu meistrolï. Ddylen ni ddim ystyried amser rhydd heb ei amserlennu ar gyfer plant fel elfen ddiangen.

Mae chwarae'n fecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni, a gwneud mwy na'r canllawiau gweithgarwch corfforol, datblygu gwytnwch a delio gyda straen a gorbryder. Mae'n darparu strategaethau effeithlon ar gyfer delio gydag ansicrwydd ac mae'n cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol da. Yn fwy na hynny, mae pob agwedd o

fywyd plentyn yn cael ei dylanwadu gan ei ysfia i chwarae, a bod chwarae hunangyfeiriedig, hunanddewisiedig a gynigir gan gyfleoedd chwarae o ansawdd yn cynyddu cyfleoedd plant i atgyfnerthu eu gwytnwch eu hunain a chefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain.'

Mae'r datganiad yn cydnabod bod angen gweithredu i hyrwyddo agweddau mwy cadarnhaol tuag at chwarae awyr agored ac i'w normaleiddio mewn gofodau cymunedol anffurfiol. Bydd angen i'r gweithredu yma ddigwydd mewn cyd-destun cymdeithasol cefnogol, ac felly bydd angen camau gweithredu cydamserol i ddileu neu leihau cyfyngiadau amser, economaidd, cymdeithasol neu ffisegol i chwarae'r tu allan.

**Bydd y cyd-ddatganiad ar gael ar:**  
[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

# 'Byddai byd heb chwarae'n llwyd, sych a diflas iawn'

Fe ofynnem i ddsbarth Afan HR6 yn Ysgol Gynradd Charles Williams yng Nghasnewydd i adolygu llyfr stori *Hwyl yn y dwnjwn*. Dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

Mae gan y bobl ysgrifennodd y stori yma ddychymyg anhygoel. Mae'r cymeriadau'n wych a'r Fam ydi'r cymeriad gorau o bell ffordd, achos ei bod hi'n garedig a chroesawus ac yn deall sut y mae plant yn teimlo am chwarae. Mae'r Frenhines yn gymeriad diddorol iawn hefyd sy'n ymddangos yn arswydus a dychrynllud ar y dechrau – nid dim ond cŵn sydd ganddi ... mae ganddi hi **fleiddiaid!**

Pan fydd plant yn codi'r llyfr yma y peth cyntaf fyddan nhw'n ei hoffi yw'r lluniau achos eu bod nhw mor drawiadol a doniol! Mae'n hawdd ei ddeall a bydd llawer o blant o wahanol oed a gallu yn medru ei ddarllen yn uchel. Fel arfer, mae plant yn hoffi llyfrau gyda diwedd glo hapus, felly fe fyddan nhw'n falch iawn mai chwarae sy'n ennill yn y diwedd. Hefyd, roedd yn syniad gwyh cynnwys gêm ar ddiwedd y llyfr ble mae rhaid ichi chwilio am y Frenhines.

Pan fydd oedolion yn darllen y llyfr, byddan nhw'n teimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth pwysig iawn ond hawdd i'w ddeall. Fe fyddan nhw am wneud popeth allan nhw i adael i'w plant chwarae a chael hwyl. Bydd oedolion yn mwynhau elfennau comedi'r stori, fel y ffaith bod y Frenhines yn rhoi'r gorau i'w theyrnas a'i chyfrifoldebau er mwyn chwarae trwy'r amser. Mae'n llyfr mor ddifyr a phleserus i'w ddarllen, bydd yn gwneud hyd yn



oed y bobl (oedolion) mwyaf blin yn llawn llawenydd a hapusrwydd.

Mae'r llyfr yn pwysleisio pa mor bwysig yw chwarae i oedolion. Mae'n dangos pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Bydd yn bendant yn helpu plant i egluro i bobl mewn oed os yw chwarae'n gallu digwydd mewn dwnjwn tywyll, digalon yna fe all ddigwydd yn unrhyw le. Hefyd, bydd plant sy'n darllen y llyfr hwn yn deall pwysigrwydd chwarae, ac yna, pan maen nhw'n hŷn, fe ddywedan nhw wrth eu plant eu hunain i chwarae pryd bynnag y maen nhw eisiau ac felly fe fyddan nhw'n rhieni gwych eu hunain.

Mae'r neges y tu ôl i'r stori yma'n glir iawn. Mae'n dweud wrth y darlennydd y gall chwarae ddigwydd yn unrhyw le ac all neb eich stopio rhag chwarae os roddwch chi'ch meddwl arno. A fyddwch chi ddim angen yr holl deganau neu offer chwarae y mae rhai pobl yn credu y byddwch eu hangen. Y cyfan sydd angen ichi ei wneud yw meddwl am

gêm a gofyn i rai o'ch ffrindiau ei chwarae gyda chi.

Yn y stori, fe ddysgodd y Frenhines nad yw chwarae'n rhywbeth gwirion ac yn wastraff amser, ond ei fod yn rhywbeth sy'n gwneud ichi ganolbwyntio a defnyddio eich dychymyg. Dylai pob oedolyn geisio cofio hyn.

Y neges bwysicaf yw na all chwarae fod yn beth drwg fyth ac y byddai byd heb chwarae'n llwyd, sych a diflas iawn.

Dros yr haf dosbarthodd Chwarae Cymru 3500 o gopïau o *Hwyl yn y dwnjwn* i blant a'u teuluoedd, llyfrgelloedd, canolfannau iechyd a sefydliadau partner ym mhob cwr o Gymru. Rydym wrthi'n codi arian i argraffu mwy o gopïau o'r llyfr stori ar hyn o bryd.  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/hwylynydwnjwn>

# Plentyndod Chwareus

Mae plant yn dweud wrthym eu bod eisiau mwy o amser a lle i chwarae gartref ac allan yn y gymuned gyda'u ffrindiau. Fel oedolion, ein cyfrifoldeb ni yw gwneud i hyn ddigwydd. Mae prosiectau diweddaraf Chwarae Cymru yn anelu i gefnogi hawl pob plentyn i chwarae.

## Plentyndod Chwareus

### Sioe deithiol Hawl i Chwarae

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am hawl pob plentyn i chwarae ac er mwyn lledaenu'r gair am ein hymgyrch *Plentyndod Chwareus* newydd, bu Chwarae Cymru ar y ffordd gan ymweld â chyfres o ddigwyddiadau dros yr haf.

Ymwelodd ein sioe deithiol Hawl i Chwarae â digwyddiad Diwrnod Chwarae Conwy, Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, a diwrnodau i'r teulu yn Llanelli, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Merthyr Tudful.

Bu ein rhifau 31 anferth yn boblogaidd iawn gyda'r plant a'r oedolion gan droi'n fwyfwy lliwgar wrth i'r sioe deithiol ymlwybro trwy Gymru. Ysgrifennodd y plant a'u teuluoedd negeseuon a chreu lluniau lliwgar am eu hawl i chwarae a'u hoff atgofion chwarae.

Mae'r rhifau yn cynrychioli Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 31 yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae.



Yn y digwyddiadau rhoddwyd 1000 o fagiâu rhodd i'r plant a'u teuluoedd. Roedd y bagiau Plentyndod Chwareus yn cynnwys posteri hawl i chwarae, llyfryn magu plant yn chwarae, llyfr stori *Hwyl yn y dwnjwn*, sialc, breichled a balŵn.

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf, roedd sioe deithiol Hawl i Chwarae'n rhan o waith partneriaeth Chwarae Cymru gyda rhaglen *Pob Plentyn Cymru*, lechyd Cyhoeddus Cymru.

### Gwefan Plentyndod Chwareus

Mae ein gwefan *Plentyndod Chwareus*, a lanswyd yn ddiweddar, yn anelu i helpu rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd da i blant chwarae. Mae'r gwefan wedi ei datblygu i gefnogi:

- Rhieni i roi cyfleoedd i'w plant chwarae
- Rhieni, fel eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch gadael i'w plant chwarae allan yn y gymuned
- Datblygiad cymunedau chwarae ar gyfer plant ledled Cymru
- Dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd chwarae ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau, gan oedolion, ym mhob cwr o Gymru.

Bydd y gwefan yn ddefnyddiol hefyd i weithwyr proffesiynol er mwyn cefnogi eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Mae'n bosibl y bydd yr adrannau canlynol o'r gwefan yn arbennig o ddefnyddiol i'w rhannu gyda rhieni a gofalwyr:

- Awgrymiadau anhygoel ar gyfer magu plant yn chwarae – yn cynnwys rheoli amser sgrîn plant a chefnogi chwarae plant yn eu harddegau
- Canllawiau 'Sut i chwarae' – yn cynnwys sut i ddelio gyda chwarae poitshlyd a chwarae ymladd
- Syniadau ar gyfer chwarae – pethau syml a rhad ac am ddim i'w gwneud.

**Mae'r gwefan yn llawn arweiniad a gwybodaeth ymarferol er mwyn gwneud plentyndod a chymunedau ar hyd a lled Cymru yn fwy chwarae:**  
[www.plentyndodchwareus.cymru](http://www.plentyndodchwareus.cymru)

# Comisiynwyr Plant y DU yn cefnogi hawl plant i chwarae

**Fel rhan o ddatliadau Diwrnod Chwarae eleni, safodd y pedwar Comisiynydd Plant o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd i gefnogi pwysigrwydd chwarae plant fel elfen allweddol o blentyndod.**

Mewn datganiad ar y cyd mae Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, Koulla Yiasouma, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon, Bruce Adamson, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban, ac Anne Longfield OBE, Comisiynydd Plant Lloegr yn annog pawb i chwarae eu rhan wrth sicrhau creu'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc i fwynhau eu hawl i chwarae.

Dywedodd y pedwar Comisiynydd: *'Trwy'r blynyddoedd, mae chwarae weithiau wedi cymryd sedd gefn i agweddau eraill bywyd ac mae hyn yn dal i fod yn wir mewn bywydau cyfoes yn y DU gyda galwadau gwahanol yn cystadlu am amser, adnoddau a dylanwad technoleg. Fel Comisiynwyr rydym yn gofyn i bob oedolyn i'n helpu i sicrhau na fydd hyn yn digwydd'*.

## Gan ystyried hyn, mae'r Comisiynwyr yn galw ar:

- Bob oedolyn i ystyried sut y gallan nhw helpu plant a phobl ifanc ar draws y DU i gael amser, lle, caniatâd a chefnogaeth i chwarae, fel rhan o'u bywyd teuluol ac yn eu cymuned.

- Sefydliadau i feddwl os ydyn nhw'n gwneud popeth y gallan nhw i alluogi a chynnwys plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud ar syniadau a phenderfyniadau fydd yn effeithio ar eu hawliau – yn cynnwys eu hawl i chwarae.
- Llywodraethau ac asiantaethau statudol i fynd ati'n weithredol i hyrwyddo a gwarchod hawl plant i chwarae trwy ddarparu adnoddau digonol.

Mae Chwarae Cymru yn croesawu cydnabyddiaeth a chefnogaeth y Comisiynwyr Plant o bwysigrwydd chwarae fel rhan allweddol o blentyndod a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i gyflawni rhai o'u hawliau eraill. Mae chwarae'n bwysig i blant ac mae'n cael effaith cadarnhaol sylweddol ar eu hiechyd, lles a hapusrwydd. Fel cymdeithas – yn oedolion, sefydliadau a llywodraethau – mae angen inni barhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb yn gwerthfawrogi hawl y plentyn i chwarae a'i fod yn cael ei ddarparu ar ei gyfer trwy wneud yn siŵr bod pob plentyn yng Nghymru'n cael digon o amser, lle a chaniatâd i chwarae bob dydd o'r flwyddyn.

**I ddarllen datganiad y Comisiynwyr Plant, ymwelwch â: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/diwrnodchwarae](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/diwrnodchwarae)**



**Mae Diwrnod Chwarae yn ddatliad blynyddol o chwarae plant trwy'r DU. Ar 1 Awst 2018, aeth miloedd o blant a theuluoedd ledled Cymru a gweddill y DU allan i chwarae mewn dathliadau a drefnyd gan gymunedau.**

Yn ei 31<sup>ain</sup> mlynedd, dathlodd Diwrnod Chwarae 2018 'Hawl Plant i Chwarae' fel yr amlinellir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n cydnabod hawl pob plentyn i chwarae, gorffwys, hamdden, mwynhau gweithgareddau adloniadol a chyfranogi'n llawn, a hynny'n rhad ac am ddim, mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol.



Dyddiad i'ch dyddiadur

**Cynhelir Diwrnod Chwarae 2019 ar Ddydd Mercher 7 Awst**

Cydlynir Diwrnod Chwarae gan y pedwar mudiad chwarae cenedlaethol: PlayBoard Northern Ireland, Play Scotland, Play England a Chwarae Cymru.

[www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)



# Comisiynydd Plant Cymru: ffocws ar Erthygl 31



Fel Comisiynydd Plant Cymru rydw i am i bob plentyn yng Nghymru gael cyfleoedd cyfartal i fod y gorau y gallant fod ac i wireddu eu hawliau.

Ym mis Mawrth 2018, fe gyhoeddais 'Adroddiad Sbotolau' sy'n rhannu profiadau dros 450 o bobl ifanc wrth gael mynediad i'w hawliau o dan Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Fe wnaeth y prosiect hwn archwilio holl agweddau Erthygl 31, felly chwarae, gorffwys a hamdden, yn ogystal â bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.

Cynhaliwyd gwaith maes yn Eisteddfod yr Urdd, gyda *Voices from Care Cymru* ac yn ein grwpiau Llysgenhadon Cymunedol – pobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli i ymgysylltu â'n swyddfa fel aelod o'u grŵp cymunedol lleol neu grŵp diddordeb arbennig.

## Clywodd y prosiect:

- Bod plant a phobl ifanc eisiau teimlo'n ddiogel pan fyddan nhw'n chwarae yn eu cymunedau, ac mae cael cyfleoedd i gwrdd â ffrindiau neu blant a phobl ifanc eraill yn rhan bwysig o hyn.
- Bod plant a phobl ifanc, weithiau, ddim yn teimlo'n ddigon hyderus i fachu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw gael mynediad i'w hawliau dan Erthygl 31. Ond, mae llawer yn ystyried yr oedolion yn eu bywydau fel ffynonellau

cefnogaeth pwysig ar gyfer cael mynediad i gyfleoedd. Mae gan bob oedolyn gyfrifoldeb i helpu i alluogi plant i wireddu eu hawliau a'u helpu i fod y gorau y gallant fod – mae meithrin hyder yn rhan allweddol o hyn.

- Roedd y plant y siaradon ni â nhw eisiau i sefydliadau wrando ar eu barn, yn enwedig er mwyn sicrhau na fyddai'r cyfleoedd y maent yn eu gwerthfawrogi ar hyn o bryd yn cael eu cymryd oddi arnynt. Roedd hyn yn arbennig o wir am ganolfannau ieuencid a mannau awyr agored.
- Bod plant a phobl ifanc nid yn unig yn abl ac yn fodlon i ddisgrifio'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, ond hefyd i gynnig datrysiadau. Trwy gyfranogaeth effeithlon gall sefydliadau harneisio ac elwa o greadigedd a datrysiadau plant a phobl ifanc.

## Cynnwys plant

Mae gan blant hawl i gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a llunio penderfyniadau ynghylch darpariaeth gyhoeddus o gyfleusterau a gweithgareddau, a thrwy hyn bydd modd i sefydliadau deilwra eu darpariaeth yn well er mwyn ateb anghenion plant yn eu hardal.

Rwy'n annog pob sefydliad, yn cynnwys y rheini sy'n gyfrifol am drosglwyddo cyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon, celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, i ystyried os ydyn nhw'n darparu digon o drefniadau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i hysbysu a chynllunio eu gwasanaethau.

Mae gan ddarparu cyfleoedd o'r fath werth mawr, nid yn unig i blant a phobl ifanc ond i'r sefydliadau eu hunain.

Gyda blaenoriaethau croes a'r cefndir o gyni, byddaf yn parhau i bwysleisio nad yw chwarae'n elfen 'braf i'w chael'. Mae plant a phobl ifanc yn dal i ddweud wrthym ei fod yn bwysig iddyn nhw, ac mae gwaith ymchwil yn dangos ei fod yn allweddol i ddatblygiad plant. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, mae'n bwysig i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill weithio gyda phlant a'u teuluoedd i adeiladu'r amgylcheddau sy'n rhoi cyfleoedd i'n plant fwynhau chwarae ac amser rhydd.

Mae galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn un o'r pum egwyddor a geir yn *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru*. Mae hwn yn fframwaith ac yn adnodd, a ddatblygwyd gan fy swyddfa, sydd wedi ei wreiddio yn CCUHP, i helpu sefydliadau osod hawliau plant wrth galon eu gwaith. Fy ngobaith yw, trwy ddefnyddio'r fframwaith hwn, y bydd cyrff cyhoeddus ledled Cymru'n gweithio gyda phlant i ffurfio a throsglwyddo gwasanaethau sydd wir yn gweithio.

[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)



# Ymateb i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol pob plentyn dan 18 oed. Fe'i cymeradwywyd gan Gynulliad Cyffredinol y CU yn 1989. Yn 1991 cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn derbyn yr holl hawliau a restrir yn y Confensiwn. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r Confensiwn fel sail ar gyfer llunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004.



Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi ei ffurfio o 18 arbenigwr annibynnol sy'n monitro gweithrediad y Confensiwn gan y gwledydd (gwladwriaethau sy'n bartion) sydd wedi ei arwyddo. Bob pum mlynedd mae'n orfodol i bob gwlad gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor sy'n nodi sut mae'r hawliau'n cael eu gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn archwilio pob adroddiad ac yna'n mynegi ei bryderon a'i argymhellion i'r wlad ar ffurf sylwadau terfynol.

Mae'r sylwadau terfynol yn tynnu sylw at y prif feysydd y dylai'r wlad sy'n cael ei hadolygu fynd i'r afael â hwy ac mae hefyd yn cyflwyno argymhellion cadarn i'w rhoi ar waith er mwyn gwella hawliau plant.

Archwiliodd y Pwyllgor weithrediad y DU o'r Confensiwn i wella hawliau plant ym mis Gorffennaf 2016, a chyflwyno nifer o sylwadau terfynol. Yma, rydym yn ystyried y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion y Pwyllgor.

## Pryderon

Tra bo'r Pwyllgor yn croesawu blaengarwch Llywodraeth Cymru i fabwysiadu polisi chwarae ac ymglyfuno hawl plant i chwarae'n systematig mewn deddfau perthnasol a pholisiau perthnasol eraill, mynegodd bryderon:

- am ddileu polisi chwarae a hamdden yn Lloegr a thanariannu polisiau chwarae a hamdden yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.
- am fannau a chyfleusterau annigonol ar gyfer chwarae a hamdden ar gyfer plant, yn enwedig rai sy'n hygyrch i blant ag anabledau a phlant mewn sefyllfaoedd difreintiedig neu ar gyron cymdeithas, a gofod cyhoeddus i bobl ifanc yn eu harddegau gymdeithasu.

## Argymhellion

Gan gyfeirio at ei sylw cyffredinol Rhif 17 (2013) ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Wladwriaeth sy'n barti, yn cynnwys llywodraethau'r gweinyddiaethau datganoledig:

- Atgyfnerthu eu hymdrechion i warantu hawl y plentyn i orffwys a hamdden ac i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn, yn cynnwys trwy fabwysiadu a gweithredu polisiau chwarae a hamdden gydag adnoddau digonol a chynaliadwy;
- Darparu manau i blant, yn cynnwys y rheini sydd ag anableddau a phlant mewn sefyllfaoedd difreintiedig ac ar gyrion cymdeithas, chwarae a chymdeithasu sy'n ddiogel, hygyrch, cynhwysol a di-fwg a thrafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i fannau o'r fath;
- Cynnwys plant yn llawn yn y broses o gynllunio, dylunio a monitro gweithrediad polisiau a gweithgareddau chwarae sy'n berthnasol i chwarae a hamdden, ar lefelau cymunedol, lleol a chenedlaethol.

## Sicrhau adnoddau ar gyfer yr hawl i chwarae

Er gwaetha'r ffaith bod yr hawl i chwarae'n ddeddf yng Nghymru a'r gydnabyddiaeth gynyddol o'i bwysigrwydd, mae gwasanaethau chwarae ar gyfer plant yn dal i fod yn agored i gwtogi eu cyllidebau, gyda mudiadau plant yn adrodd bod mynediad i ariannu addas wedi lleihau'n sylweddol. Pan fo arian yn dynn, gall fod tueddiad i arianwyr chwilio am dystiolaeth o ddeilliannau gohiriedig a geir trwy chwarae, fel lleihad mewn profiadau plentyndod niweidiol (ACEs) neu ordewdra mewn plant. Tra bo'r symbyliad y tu ôl i raglenni o'r fath yn llawn bwriad da, mae angen hefyd gydnabod gwerth cynhenid chwarae am y buddiannau uniongyrchol y mae'n eu cynnig i blant, fel mwynhad a phleser, fel y diffinnir gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn trwy Sylw Cyffredinol 17.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu tua £6.5 miliwn o gyllid grant ers 2012 i gefnogi awdurdodau lleol i yrru ymlaen y camau gweithredu a ddynodir trwy asesiadau digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chynlluniau gweithredu, er ei fod yn dal i bwysleisio y gellir mabwysiadu nifer o fesurau gan ddefnyddio agwedd niwtral o ran cost. Pan fu'r ariannu yma ar gael, mae camau a gymerwyd gan amrywiol awdurdodau lleol wedi cynnwys prynu offer gwell i gefnogi chwarae hygyrch a chynhwysol.

## Meysydd chwarae di-fwg

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyflwyno gwaharddiadau ysmegu gwirfoddol yn eu meysydd chwarae lleol a bellach mae gan bob un feysydd chwarae di-fwg. Mewn nifer o ardaloedd, cododd cyflwyniad meysydd chwarae di-fwg yn sgîl ymgyrchoedd gan blant a phlant yn eu harddegau lleol. Dyluniwyd y mwyafrif o arwyddion y meysydd chwarae gan blant ysgol lleol ac yn aml, plant lleol fydd yn lledaenu'r neges am yr effaith mae ysmegu mewn manau cyhoeddus ble maent yn chwarae yn ei gael arnyn nhw.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a basiwyd gan Lywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2017, yn cynnwys mesur i wahardd ysmegu mewn meysydd chwarae cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn anghyfreithlon i ysmegu mewn unrhyw ardal a ddyluniwyd neu a addaswyd er mwyn i blant ddefnyddio un neu fwy o eitemau o offer maes chwarae. Yn dilyn ymgyngoriad diweddar am weithredu'r mesurau a geir yn y Ddeddf, mae eu gweithrediad llawn yn debyg o ddigwydd yn 2019 neu 2020.

## Ymgyngori â phlant

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, yn pwysleisio'r angen i geisio barn plant. Mae hefyd yn disgwyl i gynlluniau gweithredu arfaethedig gael eu hysbysu gan ddadansoddiad o ganlyniadau ymgyngori gyda, a chynnwys plant.

### Ar hyd a lled Cymru, mae pob awdurdod lleol yn cynnal arolygon gyda phlant yn eu holi am:

- ddarpariaeth chwarae yn eu hardal
- sut hoffen nhw i'w cymdogaeth gael ei threfnu er mwyn darparu cyfleoedd chwarae
- pa rwystrau sy'n eu hatal rhag chwarae.

Dros y blynyddoedd, mae'r dadansoddiad wedi datblygu i ganolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau, gyda nifer o awdurdodau lleol yn canfod ffyrdd i weithio ar lefel cymdogaeth er mwyn ymgysylltu â'r plant.

Er bod cyfleoedd i blant ymwneud â pholisi ar lefel genedlaethol yn brin, dylid nodi bod cefnogaeth i chwarae plant yn genedlaethol wedi ennill momentwm yn 2009 pan ganfu arolwg gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, â phlant ar hyd a lled Cymru, mai manau diogel i chwarae a chymdeithasu oedd eu prif destun pryder. Arweiniodd yr ymchwiliad cenedlaethol dilynol at greu rhestr o argymhellion, gaiff eu hadlewyrchu yng nghyfarwyddyd statudol cyfleoedd chwarae digonol.

## Camau nesaf

Disgwylir i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei adroddiad nesaf erbyn mis Ionawr 2022. Bydd Chwarae Cymru, fel aelod o Grŵp Monitro CCUHP Cymru, yn casglu tystiolaeth i hysbysu eu hadroddiad nesaf.

# 'Gwnewch hi'n haws imi chwarae'

Plant a phlant yn eu harddegau yng Nghymru'n galw am fwy o gyfleoedd ac amgylcheddau mwy diogel i chwarae

Yma, mae'r ymchwilyr Charlotte Todd, Michaela James a'r Athro Sinead Brophy o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn sôn wrthym am ganfyddiadau eu gwaith ymchwil, sy'n dangos y pwysigrwydd y mae plant a phlant yn eu harddegau'n ei osod ar chwarae a gweithgarwch anffurfiol.



Swansea University  
Prifysgol Abertawe

Mae'r canfyddiadau hyn wedi dangos, o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, bod disgyblion o bob oed wedi mynegi'r angen i allu chwarae mewn ardaloedd lleol, mwy diogel sy'n rhad i gael mynediad iddynt. Byddai gwrando ar a mynd i'r afael â'u hawgrymiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol i'r agenda iechyd a lles gyfoes ac yn dylanwadu ar bolisi ac arfer. Mae gwaith a gynhelir trwy HAPPEN (Iechyd a Chyrhaeddiad Disgyblion mewn Rhwydwaith Addysg Gynradd) ac ACTIVE (Plant Egniöl trwy Werthusiad Talebau Unigol), yn gosod plant wrth galon y broses, er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles. Dyma rai canfyddiadau:

## HAPPEN

Mae HAPPEN yn rhwydwaith ysgolion cynradd sy'n anelu i wella iechyd, lles a deilliannau addysgol plant ([www.happen-wales.co.uk](http://www.happen-wales.co.uk)). Trwy HAPPEN, bydd disgyblion yn cwblhau holiadur ymddygiad iechyd, yr Offeryn Iechyd a Gweithgarwch Plant (CHAT), a ddatblygwyd ac a ddyluniwyd gan y plant eu hunain. Fel rhan o'r holiadur hwn, gofynnir i blant rhwng 9 ac 11 mlwydd oed ac sy'n byw yn Ne Cymru 'Beth fydddech chi'n ei newid yn eich ardal i'ch gwneud yn iachach ac yn hapusach?'. Yn seiliedig ar yr ymatebion oddi wrth 2,000 o blant, un thema gyffredin oedd yn rhedeg trwyddynt oedd yr hoffen nhw fwy o fannau diogel i chwarae ynddynt. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin gaiff eu heiriol gan y plant yw:

## Gwella parciau lleol neu greu mwy o barciau / mannau i chwarae

Cyfeiriodd y plant at wella parciau, uwchraddio offer mewn parciau a chreu parciau newydd yn eu hardal. Fe awgrymon nhw hefyd argaeledd mwy o fannau gwyrdd ble y gallent chwarae.

*'Creu parc achos mae'r plant ar fy stryd i'n rhedeg o gwmpas y maes parcio a'r ffordd bob dydd.'*

*'Ychwanegu parc achos 'does unman i weld plant eraill.'*

*'Parc newydd achos mae o wedi malu.'*

Mae'n amlwg bod parciau'n gweithredu fel lleoliad allweddol ble y gall plant chwarae a chael hwyl gyda'i gilydd. Heb eu presenoldeb yn y gymuned, neu eu cynnal yn gyffredinol, fe gollir cyfle allweddol i blant gymdeithasu a datblygu llawer o sgiliau bywyd.

## Glanhau'r ardal, gwneud inni deimlo'n ddiogel a gwneud y ffyrdd yn fwy diogel:

Fe wnaeth y plant gyfeirio'n rheolaidd at yr angen i gasglu sbwriel a chlirio baw cŵn yn yr ardal, er mwyn iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy abl i chwarae. Cyflwynwyd awgrymiadau hefyd ar gyfer gwella goleuo mewn ardaloedd penodol fel parciau.

*'Gwneud hi'n fwy diogel imi chwarae.'*

*'Glanhau'r strydoedd, y parciau a'r ysgol.'*

*'Stopio fy nghymdogion rhag gadael cyffuriau a photeli yfed allan ar y stryd.'*

*'Fe fyddai'n well os na fyddai sbwriel a pŵ ym mhobman.'*

Yn ogystal, fe wnaeth llawer o blant alw am ffyrdd mwy diogel, yn cynnwys cyfyngiadau cyflymder is, manau i groesi ac, yn gyffredinol, llai o geir ar y ffordd:

*'Cyfyngiad cyflymder ar fy ystâd, ardal ble gall y plant chwarae a ble nad ydyn nhw'n agos i'r ffordd.'*

*'Llwyth o ardaloedd chwaraeon ac offer chwarae ble nad oes llawer o geir.'*

## Creu mwy o gyfleusterau / clybiau chwarae lleol ble y gall plant fod yn egniöl:

Fe wnaeth y plant eiriol dros fwy o gyfleusterau'n agosach i'w cartrefi ble y gallan nhw fod yn egniöl, ochr-yn-ochr â chyfleusterau egniöl wedi eu teilwra ar gyfer eu grŵp oedran. Cyfeiriwyd at glybiau chwaraeon penodol fel pêl-droed a thenis, ond roedd y plant hefyd eisiau cyfleusterau fel parciau sglefrio, parciau trampolinu a llwybrau beicio yn eu hardal er mwyn cymryd rhan mewn mathau mwy anffurfiol o chwaraeon a gweithgareddau.





'Creu campfa i blant.'

'Ychwanegu parc sglefrïo, ychwanegu parc trampolinau.'

Er bod llawer o gyfleusterau mawr ar gael efallai, mae'r rhain yn aml gryn bellter o gartrefi'r plant. Mae angen symud y ffocws i fod ar gyfleusterau y gall plant gael mynediad iddynt yn eu cymdogaethau eu hunain. Cafodd hyn ei adleisio hefyd gan blant yn eu harddegau fel rhan o gynllun ACTIVE.

## ACTIVE

Roedd ACTIVE yn dreial rheoli cyfrwng cymysg ar hap a gynhaliwyd mewn saith ysgol uwchradd yn Abertawe. Yn dilyn sgysiau gyda phobl ifanc, anelodd y prosiect i oresgyn rhwystr hygyrchedd (er enghraifft cost a lleoliad gweithgareddau) y soniodd y plant yn eu harddegau oedd y prif reswm pam nad ydyn nhw mor egniol ac y dylen nhw fod.

Mae'r cyfryngau byth a hefyd yn trafod nad yw pobl ifanc yn ddigon egniol, ond mae plant yn eu harddegau'n teimlo'n rhwystredig gyda'r hyn sydd ar gael iddyn nhw ar hyn o bryd. Pan roddwyd cyfle iddyn nhw siarad am ddarpariaeth gweithgareddau, tynnodd y plant yn eu harddegau sylw at chwe argymhelliad allweddol y bydden nhw'n eu gwneud ar gyfer darpariaeth gweithgareddau. Ac y mae dau ohonynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r hyn y cyfeiriodd y plant iau atyn nhw hefyd: gwella mynediad yn lleol a gwella safonau cyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Y pedwar argymhelliad arall oedd:

### Lleihau / dileu cost gweithgareddau heb leihau'r ansawdd:

Eglurodd un bachgen bod '*... yna gae dan do sy'n costio lot i chwarae arno fe, neu mae ganddyn nhw gaeau'r tu allan sydd yn rhad iawn i chwarae arny nhw ond, mae hi'n oer iawn. Dydyn nhw ddim yn rhoi'r goleuadau ymlaen ...*' felly, byddai plant yn eu harddegau'n hoffi gostyngiad mewn costau er mwyn gwella hygyrchedd a chynaliadwyedd ond heb aberthu ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael.

Maen nhw'n aml yn teimlo fel eu bod yn cael eu trin yn annheg o ran darpariaeth gweithgareddau, sy'n eu gadael yn rhwystredig. Hefyd, maent yn teimlo bod y cyfleusterau ail ddsbarth hyn yn beryglus.

### Rhoi dewis ac amrywiaeth o weithgareddau y gall plant yn eu harddegau gael mynediad iddynt:

Dyweddodd un ferch '*mae clybiau ar gael, ond maen nhw'n union yr un fath bob tro ewch chi yno*' a gofynnodd merch arall i ddarpariaeth gweithgarwch gael ei amrywio '*yn hytrach na gwneud yr un peth, fel pêl-droed, hoci ...*'

Roedd yn amlwg bod y plant yn eu harddegau eisiau mwy o gyfleoedd i gael dweud eu barn am yr hyn y gallan nhw ei wneud ac i hyn fentro oddi

wrth 'chwaraeon' traddodiadol fel pêl-droed a pêl-rwyd. Maen nhw'n teimlo bod hyn yn eu cyfyngu i amgylchedd cystadleuol ac maen nhw eisiau cyfle i archwilio opsiynau gweithgarwch mwy anffurfiol a rhydd.

### Darparu gweithgareddau sy'n benodol ar gyfer plant yn eu harddegau:

Roedd y plant yn eu harddegau'n pryderu bod y cyngor lleol wedi teilwra llawer o ddarpariaeth gweithgarwch ar gyfer plant ifanc iawn neu oedolion. Roeddent eisiau mwy o 'anogaeth' neu gael eu cynnwys neu eu gwahodd yn uniongyrchol. Maent yn ymwybodol bod cymdeithas wedi eu dynodi fel oedran sy'n destun pryder ac maent yn teimlo eu bod yn cael enw drwg am fod yn ddiog ond maent yn teimlo nad oes unrhyw beth yn eu helpu nhw'n benodol. Mae hyn yn destun rhwystredigaeth mawr.

### Darparu gweithgareddau y bydd plant yn eu harddegau'n eu mwynhau:

Roedd yn bwysig i'r merched nad 'bod yn egniol' oedd pwrpas y gweithgaredd – roedd yn well ganddyn nhw i'r pwyslais fod ar gael hwyl. Byddai'r math yma o weithgareddau'n rhoi amser hefyd iddyn nhw fod yn gymdeithasol mewn amgylchedd anffurfiol ond diogel.

Derbyniodd pedair ysgol yr ymyriad ACTIVE, roddodd £20 o dalebau'r mis am flwyddyn i bob disgybl ym mlwyddyn 9 eu gwario ar weithgareddau. Fe wnaeth hyn eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain am weithgarwch corfforol. Fe wnaeth eu defnydd o'r talebau adlewyrchu argymhellion y plant yn eu harddegau, ac fe wnaethant eu gwario ar weithgareddau hwyliog, cymdeithasol ac anffurfiol fel trampolinio, 'laser tag' a'r parc dŵr (llithrennau a syrffio). Y neges o'r cynllun ACTIVE yw bod darparu mwy o gyfleoedd lleol i blant yn eu harddegau 'chwarae' mewn gweithgareddau hwyliog, anffurfiol a chymdeithasol yn hyrwyddo cyfranogaeth ac yn newid agweddau tuag at weithgarwch.

## Y camau nesaf ...

Mae HAPPEN ac ACTIVE yn darparu cyfle unigryw i bobl ifanc gael gwrandawriad a gwyntyllu eu hargymhellion i'r bobl hynny allai wneud gwir wahaniaeth yn eu cymunedau lleol. Mae'r agwedd gwaelod i fyny fu'n sail i'n hymchwil wedi caniatáu inni deilwra ein gwaith i fod o fudd i bobl ifanc mewn ffyrdd y maen nhw wedi eu hawgrymu. Yn yr un modd, dylai rhanddeiliaid gydnabod canfyddiadau pobl ifanc, gan na ellir gorbwysleisio'r cyfraniad y gall gwell cyfleoedd i chwarae eu cael ar iechyd a lles.

Bydd gwaith y tîm prosiect i'r dyfodol yn anel i raeadrur'r neges hon ymhellach. Os ydym am i newidiadau real, cynaliadwy gael eu gwneud allai gael effaith ar iechyd a lles plant y genhedlaeth hon, mae'n bwysig i chwarae gael ei symud yn uwch i fyny agenda llunwyr polisiau yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.

# Hawl plant a phobl ifanc i chwarae mewn mannau cyhoeddus

Yma, mae'r Darlithydd Cyswllt Simon Hoffman, o Goleg y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Abertawe, sy'n arbenigo ar hawliau plant, yn rhannu ei farn am anoddefgarwch oedolion tuag at blant a phobl ifanc yn chwarae a threulio eu hamser rhydd mewn mannau cyhoeddus.

Yn 2008, roeddwn yn ymchwilio i obsesiwn y llywodraeth gyda rheolaeth dros ofod cyhoeddus, a'i effaith ar bobl ifanc. Er bod hawliau plant ond yn elfen ymylol o fy ngwaith, fe dderbyniais wahoddiad i gynhadledd ar yr hawl i chwarae. Arweiniodd y wybodaeth o'r gynhadledd honno imi weithio ar hawliau plant, a mwynhau degawd o her a bodlonrwydd proffesiynol.

Yn 2008, dynododd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn bod hinsawdd o anoddefgarwch tuag at blant yn bodoli yn y DU. Cafodd y Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) felltith, gafodd effaith negyddol anghymesur ar blant hŷn, ei ysbrydoli'n rhannol gan awydd y cyfryngau i gythreulio pobl ifanc. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod defnydd plant o ofod cyhoeddus yn cael ei ystyried yn wrthgymdeithasol. Mae ymdrechion parhaus i reoli ymddygiad normal, ond heriol, plant hŷn trwy eu heithrio o ofodau cyhoeddus yn tresmasu ar yr hawl i chwarae.

Tra bo'r gair 'chwarae' yn un trwsogl i'w ddefnyddio wrth gyfeirio at blant hŷn (mae *Adroddiad Sbotolau* diweddar y Comisiynydd Plant yn awgrymu bod yn well gan blant hŷn y term 'amser rhydd') er hynny, mae'n allweddol inni gydnabod eu bod yn mwynhau a bod ganddynt hawl i chwarae. Mae sylwadau'r Pwyllgor ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn crynhoi chwarae i gynnwys gweithgarwch sy'n cynnwys arfer annibyniaeth gaiff ei sbarduno a'i strwythuro gan blant, sy'n heriol weithiau. Mae hyn yn crynhoi llawer o weithgareddau amser rhydd plant hŷn sydd, fel dywed y Pwyllgor, yn allweddol ar gyfer datblygiad, hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn ymysg plant yn eu harddegau.


Ni ddefnyddir ASBOs yng Nghymru bellach. Fodd bynnag, mae gan amrywiol gyrff cyhoeddus bwerau i eithrio plant o fannau cyhoeddus. Er mai pur anaml y defnyddir y rhain yng Nghymru, mae plant

hŷn yn dal i ddiodef canlyniadau dihidrwydd ac anoddefgarwch oedolion. Mae *Adroddiad Sbotolau* Comisiynydd Plant Cymru yn nodi mai prin yw'r gofod cyhoeddus y gall plant hŷn ei ddefnyddio a'u bod yn aml yn cael eu 'symud ymlaen' o barciau. Ddylai hyn ddim digwydd yng Nghymru. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant o bob oed. O ystyried hyn trwy lens-hawliau Erthygl 31 a phlant hŷn, mae dwy agwedd bwysig i hyn.

Yn gyntaf, amod i amddiffyn yr hawl i chwarae trwy sicrhau nad yw plant hŷn yn cael eu heithrio o ofod cyhoeddus. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) lleol, a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn allweddol yn hyn o beth gan eu bod yn cynnwys sefydliadau sy'n rheoli gofodau cyhoeddus (er enghraifft awdurdodau lleol, yr heddlu). Mae angen i BGCau annog goddefgarwch ac atal ymyrryd gyda defnydd plant hŷn o ofodau cyhoeddus – hyd yn oed ble fo'u hymddygiad yn heriol i oedolion sy'n defnyddio'r un gofod.

Yn ail, amod i hyrwyddo'r hawl i chwarae. Bydd hyn yn cynnwys darparu gofodau newydd i blant hŷn dreulio eu 'hamser rhydd'. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Plant, *Y Ffordd Gywir: Dyfodol addas i blant yng Nghymru*, yn cadarnhau y dylai BGCau ddefnyddio cynlluniau lles statudol i ddynodi cyfleoedd chwarae.

Ddegawd ymlaen o 2008, rwy'n gresynu bod ymddygiad normal plant hŷn yn dal i gael ei ystyried yn wrthgymdeithasol. Gall BGCau gymryd camau i fynd i'r afael â'r anoddefgarwch parhaus y mae cymdeithas yn ei arddangos tuag at ein hieuenctid, ac rwyf wir yn gobeithio y gwneir hynny.



# Grym, Hawliau a Chwarae

## Cynnal peilot o becyn cymorth Chwarae Cymru i ysgolion

**Mae'r pecyn cymorth Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu yn cynorthwyo cymunedau ysgolion a'u partneriaid i asesu'r posibilrwydd o agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae plant, y tu allan i oriau addysgu.**

Galluogodd ariannu oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm i Chwarae Cymru sefydlu partneriaeth gydag Ysgol Addysg Caerdydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (tîm Astudiaethau Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar) ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, i ymchwilio i brosiect 'Ar Agor Bob Awr'.

Gan ddefnyddio'r pecyn cymorth, ymchwiliodd y prosiect y defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae mewn tair ysgol yn ne Cymru. Fel rhan o'r prosiect, cynhaliwyd cyfweiliadau cyn ac ar ôl y peilot gyda phartneriaid allweddol. Cafodd peilota'r pecyn cymorth yn yr ysgolion ei staffio gan dri o fyfyrwr-wirfoddolwr (un ym mhob ysgol) ac academydd o'r brifysgol.

Mae'r papur ymchwil cyntaf, *'Power, Rights and Play: Control of Play in School Grounds, an Action Research Project from Wales'*, sy'n gwerthuso'r data o'r prosiect, wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar yn *Education 3-13 International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*.

### Yn ei gyfarwyddyd statudol ar ddigonolrwydd chwarae, mae Llywodraeth Cymru'n nodi:

*'Mae ysgolion yn rhoi cyfle pwysig i blant chwarae am gyfnodau cyn ac ar ôl eu gwersi. Gallant hefyd gynnig lle gwerthfawr i blant chwarae dros y penwythnos ac yn ystod y gwyliau os yw trefniadau'r ysgol yn caniatáu hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai Awdurdodau Lleol gynghori ysgolion i roi ystyriaeth lawn i agor y ddarpariaeth honno y tu allan i oriau addysgu.'*

Er gwaetha'r canllawiau hyn a thystiolaeth bod gan chwarae ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer plant, mae tystiolaeth yn awgrymu bod tiroedd ysgolion yn cael eu tandefnyddio. Mae canfyddiadau'n dynodi bod pŵer a rheolaeth yn ffactorau sy'n effeithio ar hygyrchedd a'r defnydd o fannau awyr agored, yn enwedig yng nghydestun pwy gaiff fynediad i fannau chwarae, ble mae gan blant hawl i grwydro, yn ogystal â phryd a pha fathau o chwarae sy'n dderbyniol.

Dynodwyd y tair ysgol a'u recriwtio ar sail y ffaith bod pob un wedi ei lleoli mewn gwahanol fath o ardal ac yn amrywio o ran mynediad presennol y gymuned i diroedd yr ysgol. Roedd yr ysgolion unai heb eu lleoli ger ardal chwarae gyhoeddus neu barc, neu, yn achos un ysgol, cyfeiriodd y rhieni at anniddigrwydd gyda chyfleusterau chwarae lleol.

Dynododd canfyddiadau o'r cyfweiliadau cyn ac ar ôl y prosiect bod partneriaid yn cefnogi agor tiroedd ysgol ar ôl oriau ysgol, cyn ac ar ôl i'r prosiect gael ei gynnal. Fodd bynnag, roedd nifer o ffyrdd yr oedd ysgolion yn cadw rheolaeth dros bwy fyddai'n defnyddio eu gofod. Roedd pedair ffordd benodol y byddai oedolion yn dylanwadu ar a / neu'n rheoli'r chwarae fyddai'n digwydd ar dir yr ysgol wedi oriau addysgu – yn enwedig o ran pwy fyddai'n derbyn caniatâd i gael mynediad i'r manau chwarae, ble byddai caniatâd iddynt fynd, pryd a pha fathau o chwarae oedd yn dderbyniol.

Yn ystod y cyfnod cynllunio a'r cyfweiliadau cyn y prosiect, mynegodd staff yr ysgol amrywiaeth o bryderon ynghylch y prosiect. Roedd tensiwn ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am reoli tiroedd yr ysgol unwaith iddynt gael eu hagor a lleihau'r canfyddiadau negyddol, fel ofn cael eu dwyn i gyfraith, difrod, fandaliaeth ac effeithiau posibl plant hyn yn achosi problemau. Yn ystod y prosiect, fe newidiodd yr agweddau hyn a nodwyd yn y cyfweiliadau ar ôl y prosiect nad oedd llawer o'r ofnau cychwynnol wedi codi. Llwyddodd cymunedau'r ysgolion weld y buddiannau uniongyrchol, nid yn unig ar gyfer y plant ond ar gyfer y cymunedau a'u teuluoedd hefyd.

*'Rwy'n llawn symbyliad, yn fwy brwdfrydig ... Dydwn i ddim yn credu i unrhyw un o fy ofnau ddod yn wir. Fe agorodd ein hysgol i'r gymuned, er mai ond i nifer ddethol; roedd yn gychwyn inni oherwydd bod gennym gysylltiadau cymunedol da iawn yn ystod oriau ysgol, ond 'doedd gennym fawr ddim ar ôl ysgol ac, i mi ... y peth gorau oedd gweld y rhieni'n eistedd yna'n cael eu picnic bach, a'u plant yn chwarae ar y cae.'*

### Dirprwy bennaeth ysgol

Mae canfyddiadau o'r data ansoddol, trwy gyfweiliadau ar ôl y prosiect, yn dynodi bod cynyddu hygyrchedd a'r defnydd o'r manau awyr agored hyn yn:

- mynd i'r afael â phryderon staff yr ysgolion ynghylch diogelwch a risg
- hwyluso ymgysylltiad cymunedol
- creu manau ac amser ar gyfer chwarae heb ei reoli mewn amgylchedd sy'n llawn caniatâd.

Mae'r papur yn cloi trwy awgrymu, o ystyried na ddaeth pryderon cyn y prosiect yn wir tra roedd tiroedd yr ysgol ar agor, bod hyn yn syniad buddiol a gwerth chweil ar gyfer chwarae plant, a argymhellir iddo gael ei gynnwys mewn cynllunio strategol.

**I lawrlwytho'r pecyn cymorth, ymwelwch â:**  
[www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion)



## Datblygu'r gweithlu

# Diweddariad Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith

Dros yr haf gweithiodd Chwarae Cymru gydag Agored Cymru, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, Ali Wood a Tanny Stobart i ail-ddrafftio cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>) ar Lefel 2 a 3.

Mae unedau drafft y cymhwyster wedi eu datblygu'n seiliedig ar ymgynghoriadau gyda dysgwyr a thiworiaid cyfredol, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) a chyrrff dyfarnu. Mae adborth a dderbyniwyd yn dangos bod y cymwysterau P<sup>3</sup> presennol yn ordwrwm o ran asesiadau, lefel yr addysgu a'r amser a gymerir i'w cwblhau.

O ganlyniad, rydym yn symleiddio'r cymwysterau er mwyn sicrhau bod y cymwysterau yn asesu isafswm y gallu fydd angen i weithwyr chwarae ei arddangos er mwyn gwneud eu gwaith. Mae'r cymwysterau'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd gweithwyr chwarae'n dal ati i ddysgu'n barhaus trwy arfer myfyriol ac, o ganlyniad, fe'u hasesir hefyd ar eu gallu i ddynodi cyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Er mwyn cefnogi dysg gwaith chwarae parhaus, byddwn yn datblygu nifer fechan o unedau DPP dewisol er mwyn caniatáu i ddysgwyr ennill DPP achrededig. Mae hyn yn cynnwys uned ar chwarae a chyfiawnder gofodol, sy'n cynrychioli'r syniadau diweddaraf mewn gwaith chwarae a gwaith datblygu

cymunedol a ddatblygwyd gan Wendy Russell a'i diweddar gydweithiwr Stuart Lester o Brifysgol Swydd Gaerloyw. Bydd yr unedau DPP ar Lefelau 2 i 4 ac yn rhai unigol, felly gall unrhyw un sydd â diddordeb eu hastudio.

Mae'r llwybr cynnydd trwy'r cymwysterau'n llinellol, felly bydd rhaid i ddysgwyr gwblhau'r unedau ar Lefel 2 cyn symud ymlaen i Lefel 3. Mae adborth yn dangos bod dysgwyr sy'n symud ymlaen i Lefel 3 heb y wybodaeth sylfaenol yn ei chael yn anodd cwblhau eu hasesiad.



Bydd rhaid i ddysgwyr gwblhau'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) presennol er mwyn gallu symud ymlaen i astudio P<sup>3</sup> ar Lefel 2.

Bydd modd i ddygwyr sydd wedi cwblhau cymwysterau'r SQA, sef Gwobr a Thystysgrif Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>) yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ymgeisio i gael eu dysg blaenorol wedi ei fapio i'r cymhwyster newydd a chwblhau unrhyw asesiadau ychwanegol.

Ymgynghorwyd ar yr unedau newydd yn ystod Hydref 2018 a chynhelir cyfnod profi ar gyfer rhai o'r deunyddiau addysgu ac asesu ddechrau 2019. Caiff y cymwysterau newydd eu trosglwyddo o fis Medi 2019.

**I gofrestru eich diddordeb mewn astudio ar gyfer y cymwysterau P<sup>3</sup> newydd, e-bostiwch: [gweithlu@chwaraecymru.org.uk](mailto:gweithlu@chwaraecymru.org.uk)**





## Dan y chwyddwydr ... Cydlynnydd Chwarae'r Tu Allan

Ym mhob rhifyn byddwn yn siarad gyda gweithwyr proffesiynol o fyd chwarae a gwaith chwarae er mwyn cyflwyno cipolwg ar yr amrywiol rolau a swyddi sy'n ffurfio'r gweithlu.



Yn y rhifyn hwn, rydym yn sgwrsio gyda Jade Tomlinson, Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC).

### Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae?

Ar hyn o bryd, dwi'n astudio Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor ac rydw i wedi gweithio ym maes gwaith chwarae ers pum mlynedd. Ar ôl gadael yr ysgol doeddwn i ddim yn siŵr i ba gyfeiriad yr oeddwn am fynd gyda fy ngyrfa. Fe ymgeisiais am rôl gwaith chwarae gyda chynllun chwarae haf lleol yn Sir y Fflint a sylweddoli'n syth mai dyma oedd fy ngalwedigaeth.

### Beth yw teitl dy swydd a beth mae dy rôl di'n ei olygu?

*Trwy'r haf cefais fy nghyflogi fel Cydlynnydd Chwarae'r Tu Allan, Darpariaeth Chwarae Allan Conwy. Fy mhrif rôl oedd cydlynu tîm o weithwyr chwarae i drosglwyddo sesiynau chwarae mynediad agored i blant 5 i 14 oed ar draws nifer o leoliadau yng Nghonwy.*

### Beth yw'r peth gorau am dy swydd?

*Mae gwaith chwarae'n swydd ble y galla' i roi rhywbeth yn ôl i gymunedau a chefnogi mynediad plentyn i gyfleoedd chwarae. Mae'n gallu bod yn rôl heriol ar brydiau ond, ar y cyfan, mae'n swydd yr ydw i wrth fy modd â hi – gwelw bod ein tîm yn cael effaith positif ar fywyd plentyn yw rhan orau fy swydd!*

### Wyt ti'n teimlo bod unrhyw elfen o dy swydd yn heriol?

*Mae chwarae'n rhywbeth gaiff ei anghofio'n aml a'i ystyried yn weithgaredd gwamal. Felly, mae ennill cefnogaeth a dealltwriaeth i'r angen am wasanaethau chwarae mewn cymunedau'n gallu bod yn heriol iawn.*

*Gan ein bod ond yn cynnal sesiynau chwarae am hyd at bum wythnos, rydw i'n teimlo ei bod yn heriol inni gyfleu pwysigrwydd chwarae ar fywydau plant. Er hynny, o siarad gyda [phobl yn] y gymuned ac oedolion fydd yn mynychu'r sesiynau, maen nhw'n gallu gweld sut y mae darparu cyfleoedd chwarae ar gyfer y plant, hyd yn oed trwy gynllun tymor byr, yn cael effaith positif ar eu bywydau.*

## Hyfforddiant defnyddio offer ac adeiladu strwythurau

Dros yr haf, gweithiodd Chwarae Cymru gyda tîm chwarae Cyngor Sir y Fflint a Playful Futures i gefnogi cynllun gwyliau sirol *Quayplay*.



Fel rhan o'r prosiect, hwylusodd Simon Bazley o Playful Futures hyfforddiant i'r holl weithwyr chwarae er mwyn cynyddu eu hyder wrth adeiladu gan ddefnyddio offer, paledi a thorion pren. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys elfennau ar ddefnyddio morthwylion a llifiau'n ddiogel a sut i sicrhau bod strwythurau'n ddigon cryf i ddal pwysau plant.

Yn ogystal â'r holl nodweddion y byddech yn eu disgwyl mewn cynllun chwarae gwyliau, roedd *Quayplay* yn cynnwys ardal y tu ôl i ffens ble gallai'r plant adeiladu eu maes chwarae eu hunain, wnaeth esblygu dros oes pythefnos o hyd y cynllun. Wedi pob sesiwn chwarae, byddai'r gweithwyr chwarae'n gwirio'r safle gan ddefnyddio

asesu risg-budd deinamig er mwyn addasu neu gryfhau unrhyw strwythurau a thynnu unrhyw nodweddion oedd yn rhy beryglus.

Mae'r agwedd ddyfeisgar a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint yn adlewyrchu'r modd y mae meysydd chwarae antur wedi eu staffio wedi bod yn gweithredu am y 40 mlynedd diwethaf. Dywedodd y gweithwyr chwarae eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth weithio gydag offer a chefnogi plant i adeiladu gyda phren a phaledi. Nododd un gweithiwr chwarae bod y plant yn chwarae'n fwy cydweithredol yn yr ardal hunanadeiladu a bod llai o anghydwelw na phan fyddai'n goruchwylio gweithgareddau eraill y cynllun chwarae.

*'Mae'r hyfforddiant a'r profiad yr ydw i wedi eu hennill yn gweithio yn Quayplay wedi cynyddu fy hyder wrth ddefnyddio offer. Roeddwn i'n nerfus ar y cychwyn ond mae gweld y plant yn defnyddio'r offer wedi fy helpu i sylweddoli pa mor abl y gallan nhw fod.'*

### Gweithiwr Chwarae

Tra bo defnyddio offer ac adeiladu strwythurau wastad wedi bod yn rhan o set sgiliau gweithwyr chwarae, 'dyw hyn erioed wedi ei roi ar bapur mewn cymwysterau gwaith chwarae cyffredinol. Bydd Chwarae Cymru'n defnyddio ein dysg o'r prosiect yn Sir y Fflint i hysbysu unedau ymarferol yng nghymwysterau newydd Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>).

# Cymunedau chwareus

## Ysgol ar agor ar gyfer amser chwarae bob Dydd Sadwrn

Yn aml, meysydd chwarae ysgolion sy'n cynnig y gofod awyr agored mwyaf mewn cymuned ac maent yn ddelfrydol ar gyfer darparu cyfleoedd i blant chwarae'r tu allan i oriau addysgu. Joanne Jones, Uwch-swyddog Byw yn Iach (Chwarae) Bro Morgannwg, sy'n dweud wrthym am agor tiroedd ysgol ar y penwythnos er mwyn i'r plant lleol i gyd gael chwarae.

Fe wnaeth llawer ohonom fwynhau'r tywydd hyfryd dros yr haf ac yn enwedig treulio amser y tu allan mewn parciau'n chwarae ar y siglenni, y llithrennau a'r rowndabowts a, tra bo llawer ohonom yn cymryd hyn yn ganiataol, mae nifer o blant a theuluoedd sy'n methu cael mynediad i feysydd chwarae.

I lawer o rieni sydd â phlentyn gydag anabledd, mae'n anodd dod o hyd i barc sydd â mynediad addas, offer chwarae hygyrch a chyfleusterau newid pwrpasol. Wedi trafodaethau gyda rhieni y mae eu plant yn mynychu ysgol arbennig a adeiladwyd i'r pwrpas ym Mhenarth, Bro Morgannwg, penderfynwyd agor maes chwarae Ysgol Y Deri ar brynhawniau Sadwrn fel rhan o brosiect peilot.

Mae gan Ysgol Y Deri faes chwarae mawr wedi ei darmacio gyda llochesi amrywiol, llain wedi ei gorchuddio ag astro-turf yn ogystal ag ardal gydag offer chwarae a thwneli. Mae'r ardal allanol yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ffens ddiogel yn amgylchynu'r ardal gyfan. Mae gan deuluoedd fynediad hefyd i gyfleusterau newid pwrpasol sy'n cynnwys defnydd o beiriant codi a gwely newid.

Mae agor y maes chwarae i deuluoedd ar y penwythnos wedi cael effaith hynod o bositif, nid yn unig ar y plant ond ar eu teuluoedd hefyd. Gall brodyr a chwirydd chwarae gyda'i gilydd ac mae'r maes chwarae'n gyfarwydd i'r plant hynny fydd yn teimlo'n orbryderus mewn amgylchoedd anghyfarwydd.

**Sarah Maynard sy'n rhannu ei phrofiad am y gwahaniaeth y mae'r sesiynau chwarae ar Ddydd Sadwrn wedi ei wneud i'w theulu hi:**

*'Mae'n anhygoel cael ardal chwarae hygyrch y gallwn ei defnyddio ar y penwythnos. Mae fy mab leuan, sy'n ddeuddeg oed, yn mwynhau cael crwydro'n rhydd ar dir ei ysgol a gyrru ei gadair olwyn yn syth ar y rowndabowt a thrwy'r twneli. Mae wedi gwneud byd o wahaniaeth cael rhywle ble y galla' i fynd â fy mhlant i gyd i chwarae ar yr un pryd, yn hytrach nag un plentyn ar y tro. Mae leuan yn mwynhau gallu chwarae gyda'i frodyr a'i chwirydd yn yr ysgol. Fe fyddai'n wych petai'r ysgol ar gael inni chwarae fwy o'r amser; fel arall, mae rhaid imi fynd â leuan i un maes chwarae i ddefnyddio siglen cadair olwyn ac yna i faes chwarae arall i ddefnyddio'r llithren.'*



Bu'r cynllun peilot yn llwyddiant ysgubol ac mae'n bendant yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud i'r dyfodol – unwaith i waith adeiladu gael ei gwblhau yn yr ysgol.

Trwy ddim ond agor y gatiau a rhoi mynediad i ofod y maes chwarae, yr offer chwarae a'r cyfleusterau newid, mae wedi galluogi teuluoedd sy'n gofalu am blentyn gydag anabledd i fwynhau bod y tu allan mewn amgylchedd diogel tra'n mwynhau'r cyfleoedd ddaw yn sgîl ymweliad â'r parc.

Mae mudiadau a grwpiau ledled Cymru'n cynnal prosiectau chwarae neu'n gwneud yn siŵr bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae yn eu cymunedau. Ym mhob rhifyn, byddwn yn rhannu enghraifft o brosiect sy'n helpu i wneud cymuned yn fwy chwareus.

### Efallai y bydd yr enghreifftiau:

- Yn agos i ble rydych chi'n byw, fel y gallwch ymweld â nhw
- Yn eich ysbrydoli gyda syniadau am bethau y gallech eu gwneud yn eich cymuned chi
- Yn eich helpu i ddadlau eich achos dros chwarae yn eich ardal leol.

**Am fwy o enghreifftiau o gymunedau chwareus yng Nghymru, ymwelwch â:**  
[www.plentyndodchwareus.cymru/am-gymunedau-chwareus](http://www.plentyndodchwareus.cymru/am-gymunedau-chwareus)